# heddwch

gaeaf 2010-11
rhif 53

cnd cymru

yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear




graffig:Dai Owen www.dai-owen.co.uk

# Dychmyga

## Yr holl bobl yn rhannu'r holl fyd

# heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**golygydd:**
Jill Gough

**cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**cynhyrchu a phostio**
Redkite Print
07810 566 919
redkiteprint@thefreeflyer.com

## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
01824 709 700
jill.evans@europarl.europa.eu

**is-gaderyddion**
Brian Jones
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com
Olwen Davies
01970 611 994
George Crabb
01446 774 452
Ray Davies
029 20 889 514
John Cox
01495 773 495
drjohncox@aol.com

**aelodaeth ac aelodau**
9,Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE
01970 626 740
michael.freeman9@btinternet.com

**masnachu**
Kate & Del Rhys
coney@gn.apc.uk

**trysorydd**
Chris Edmondson

**ysgrifenydd cenedlaethol**
Jill Gough,
CND Cymru, Llys Gwyn,
Glynarthen SA44 6PS
heddwch@cndcymru.org

**Nid yw cynnwys heddwch o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu gyfraniadau at y golygydd.**


# 'Ufuddiaduraeth' v. Dadansoddi Annibynnol

**Doedd hi ddim yn syndod, ac yn sicr ddim yn siom - fod prosiect Ailwladoli Hyfforddiant Ammddifyn (DTR) y Deyrnas Unedig yn Sain Tathan, Bro Morgannwg wedi'i sgrapio ar 19 o Hydref. Ar wahan i fod yn ddrwg mewn egwyddor, yn preifateiddio asedion cyhoeddus ar raddfa anferth ac yn beldroed gwleidyddol di-chwaeth, nid oedd synnwyr iddo fel prosiect posibl hyd yn oed ar ei dermau ei hun. Ac fel arfer gyda phrosiectau 'amddiffyn', roedd y breuddwyd gwrach ymffrostedig yma- a oedd ar adegau bron yn hysterig - yn cael ei werthu yn bennaf fel prosiect creu swyddi.**

Pan gyhoeddwyd hyn gyntaf, roedd y papurau newydd yng Nghymru yn cyhoeddi'n frwd am y '5,000 o swyddi'. Defnyddiwyd y ffigwr hwn dro ar ôl tro gan y gwleidyddion Prydeinig oedd yn ei hyrwyddo. Ond yn fwy pryderus, roedd y ffigwr hwn yn cael ei adrodd heb feiriniadaeth yma yng Nghymru. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wir ymgais gan newyddiadurwr i ddarganfod y gwirionedd am y swyddi, hyd yn oed ar ôl i'r ffigwr newid i 1,500. Mae'n ymddangos bod hanes y DTR yn enghraifft berffaith o beth mae Nick Davies, yn ei lyfr pwysig *'Flat Earth News'*, yn ei alw yn *'churnalism'*.




Cafodd y ddadl dros swyddi i Sain Tathan ei wneud gryfaf yn adroddiad Entec *'Adroddiad Effaith Economaidd Terfynnol'* yn mis Mai 2009, a oedd wedi'i gomisiynu gan Mextrix ei hun. Yn fras, mae'n honni bod yr holl effeithiau economaidd yn gadaranhaol, yn 'bwysig yn genedlaethol'(beth bynnag mae hynny'n ei feddwl) ac yn dymor hir. Mae Entec yn gwneud yn glir y gwahaniaeth rhwng beth y mae'n gallu ei fesur (profi) a beth y mae'n amcangyfrif (dyfalu). Hyd yn oed gyda'r rhybudd pwysig hyn, mae Metrix yn dod i'r casgliad y 'gall cyfran sylweddol o'r effeithiau hyn gael eu gweld ar lefel lleol'. Y geiriau pwysig yma yw 'gall' a 'chyfran'.

Fel rhan o geisiadau cynllunio Metrix, rhybuddiodd Cyngor Bro Morgannwg 'nad yw creu y cyfleoedd swyddi yma yn golygu fod y boblogaeth leol yn mynd i elwa o reidrwydd'. Pryd gafodd y rhybudd hwn ei adlewyrchu yn y cyfryngau?

Mae'n debyg mai'r gwir yw na fu unrhyw asesiad annibynnol o'r adroddiad 60 tudalen Entec, yn enwedig o fewn cyd-destun yr economi leol.


Os ydym ni, pobl Cymru yn mynd i feirniadu gwir effaith y diwydiant amddiffyn, mae angen ffeithiau ac nid barn. Dyna pam yr ydw i'n cefnogi yn angerddol Sefydliad Heddwch i Gymru, a'r dadansoddiad annibynnol y gallai ei ddarparu, yn rhydd o ddylanwad y diwydiant arfau byd-eang a'r lobïwyr glweidyddol a chorfforaethol.

**Jill Evans ASE Cadeirydd CND Cymru**

# Dychmyga

**(Darlun clawr)**

Cyfeillion a chefnogwyr o'r gwaith heddwch a chyfiawnder; i dathlu a chofio John Lennon 9 Hydref 1940 – 8 Rhagfyr 1980:




1. John Lennon
2. Yoko Ono
3. Jan Jones
4. Brian Jones
5. Genny Bove
6. Bruce Gagnon
7. Waldo Williams
8. William Morgan
9. George Crabb
10. Jeanne Crabb
11. George M Ll. Davies
12. Angie Zelter
13. Keir Hardy
14. Menywod Greenham
15. David Morris
16. Michael Foot
17. Rowan Williams
18. Stephen Thomas
19. Robin Gwyndaf
20. Jan Morris
21. Llew Smith
22. Gwynfor Evans
23. Jill Evans
24. Lib Rowland Hughes
25. Gandhi
26. Henry Richard
27. Angharad Mair
28. Dewi Sant
29. David Davies
30. Jill Gough
31. Ray Davies
32. John Cox

# Amddiffyn Pwy, Diogelwch Pwy?

**Fe'i gwnaed yn glir gan yr Arolwg Amddiffyn a Diogelwch Strategol ym mis Hydref fod y llywodraeth Brydeinig yn credu y dylai Prydain barhau i gynnal statws uwch na'i theilyngdod yn y byd, ac y dylai 'weithredu ei hofferynnau pwer a dylanwad er mwyn rhoi ffurf i'r amgylchedd byd-eang'. Mae'n amlwg fod arfau niwclear yn un o'r offerynnau hynny.**
**Y newyddion da yw y bydd gostyngiad o 8% mewn gwariant milwrol. Er gwaethaf hynny, bydd Prydain yn dal i fod â'r gyllideb filwrol bedwaredd fwyaf yn y byd.**

## Y penderfyniad ar olynydd i Trident - yn gryno:

* Caiff oes y llongau tanfor Trident cyfredol ei hymestyn. Ni fyddai 'angen' unrhyw olynydd iddynt tan 2028 (yn lle 2024). Ni fydd angen penderfynu ynghylch olynydd i Trident na nifer y llongau tanfor (3 neu 4) tan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol nesaf.

* Bydd y cyflenwad o ergydion niwclear gweithredol a gedwir ar hyn o bryd yn cael ei ostwng o 160 i 120. Bydd gostyngiad yng nghyfanswm arfau niwclear Prydain o ryw 225 yn awr i ddim mwy na 180 erbyn canol y 2020au.

* Gostyngir nifer y tiwbiau lawnsio ar unrhyw long danfor newydd a fydd yn cario arfau niwclear o 12 i 8, a'r nifer o ergydion niwclear ar longau tanfor ar fôr o 48 i 40.

* Ni fydd angen unrhyw system arall yn lle Trident tan ddiwedd y 2030au.

Cyhoeddodd Caroline Lucas AS (y Blaid Werdd) adroddiad sy'n dangos y gellid arbed £100 biliwn trwy gael gwared o Trident ac £8 biliwn trwy atal cynlluniau i adeiladu unrhyw orsafoedd niwclear newydd. http://bit.ly/b9UnqL

## TRIDENT HEDDIW


*** Cedwir 58 o daflegrau niwclear balistig Trident II D-5 a rhyw 200 o ergydion niwclear yn barod ar fwrdd 4 llong danfor dosbarth-Vanguard o Ganolfan y llynges yn Faslane ar arfordir gorllewinol yr Alban.**

*** Mae o leiaf un o'r llongau tanfor allan ar y môr ar unrhyw adeg, gydag arfogaeth o hyd at 16 o daflegrau Trident a rhyw 48 o ergydion niwclear (tri ergyd i bob taflegryn, ar gyfartaledd).**

*** Gall pob llong danfor gario hyd at 160 o ergydion niwclear, gan y gall pob taflegryn gymryd 10 ergyd.**

*** Mae pob ergyd Trident yn 100 cilodunnell o faint - tuag 8 gwaith maint bom Hiroshima.**

*** Yn sgîl Arolwg Amddiffyn a Diogelwch Strategol yr hydref, gostyngir nifer y taflegrau i 8 i bob llong danfor, gyda chyfanswm o 40 o ergydion.**




heddweithredu

## Lobïwch eich AS!

* Gofynnwch i'ch AS i arwyddo'r Cynnig Boreol (EDM) a ganlyn ar Olynydd i Trident.
Wrth i ni fynd i'r wasg, roedd chwe AS Cymreig wedi arwyddo'r EDM: Martin Caton, Paul Flynn, Roger Williams, Hywel Williams, Jonathan Edwards ac Elfyn Llwyd o gyfanswm o 44 sydd wedi arwyddo - dydy hyn ddim yn ddigon, yn enwedig o Gymru!

Gellwch wneud hyn trwy anfon geiriad a rhif yr EDM at eich AS (Tw'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA) a gofyn iddo/iddi arwyddo, gan ddefnyddio www.writetothem.com neu trwy ddefnyddio'r ffurflen: www.cnd.iparl.com/lobby/48.
EDM 909:
*'Fod y Tw hwn yn croesawu'r cyhoeddiad yn yr Arolwg Amddiffyn a Diogelwch Strategol (AADS) y bydd lleihad yn nifer yr ergydion gweithredol o 160 i 120 ac yr oedir tan 2016 cyn penderfynu'n derfynol; yn gresynu na chynhwyswyd y cwestiwn a yw arfau niwclear yn angenrheidiol yn yr AADS yn ffurfiol; yn nodi y disgrifir y bygythiad o ymosodiad niwclear ar y DU gan wladwriaeth arall fel un pur annhebygol yn y Strategaeth Ddiogelwch; a'i fod felly'n galw ar y llywodraeth i sicrhau y cynhelir arolwg cyhoeddus llawn o feddiant y DU ar arfau niwclear cyn y gwneir y penderfyniad terfynol.'*

*** Ymunwch â thîm sgrifennu llythyron CND.**
**Mae llythyron yn gallu hysbysu a chalonogi pobl, a chyfleu ein safbwynt. Mae gan CND Prydeinig dîm llythyru sy'n anfon llythyron allan rhyw wyth neu naw gwaith y flwyddyn. Mae'r tîm yn darparu gwybodaeth gefndir a rhestr o bwyntiau y dylid eu gwneud. Fydd pawb ddim yn gallu sgrifennu bob tro, ond byddai hyd yn oed un y flwyddyn o gymorth.**
**I ymuno**
**e: membership@cnduk.org**

# Buddugoliaeth - trwy'r drws cefn ariannol

**Felly, gwelwyd gollyngdod mawr a rhywfaint o ddathlu ymhlith gweithredwyr pan gyhoeddodd llywodraeth glymblaid San Steffan ym mis Hydref ei bod wedi rhoi terfyn ar gynnig £14 biliwn consortiwm Metrix ar gyfer coleg technegol amddiffyn yn Sain Tathan. Roedd llawer yn y mudiad heddwch yn barod i godi gwydryn i ddathlu darn annisgwyl o newyddion da.**

Dywedodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn Liam Fox y gwnaed y penderfyniad am nad oedd y cynnig yn fforddiadwy nac ar sail fasnachol gadarn, ac ni ellid fod wedi ei gwblhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Yn gwbl haeddiannol, methodd y Fenter Cyllid Preifat (PFI) anferthol ar gyfer Sain Tathan yn y pen draw oherwydd grymoedd marchnad: cost gynyddol benthyca arian, tebygrwydd twf mewn chwyddiant, a thaliadau yswiriant risg uwch oherwydd y dirwasgiad, nes gwneud y project yn anymarferol.

Popeth yn iawn, o safbwynt canlyniad i'w groesawu. Ond efallai y dylid cadw'r siampaen yn y rhewgell am ychydig yn hwy. Oherwydd mae'n golygu hefyd, o blith holl ddadleuon ymgyrchwyr yn erbyn y cynllun - militareiddo Cymru, cyfranogiad cwmnïau arfau, adeiladu ar safleoedd tir glas, addewidion gau yngl?n â swyddi, hyfforddi lluoedd tramor, creu targed posibl i frawychwyr - nad ar sail yr un o'r rhain y gwnaed y penderfyniad terfynol.

### Cydleoliad - chwiw-air newydd

Yn wir, bydd yn rhaid atgyfodi'r dadleuon hyn a'u defnyddio eto wrth i ni symud ymlaen at y cam nesaf mewn 'rhesymoli' hyfforddiant i'r lluoedd arfog. Oherwydd, er na chlywir llawer yngl?n â hyn am rai misoedd, nod y llywodraeth o hyd yw 'cydleoli' adnoddau hyfforddi, ar nifer llai o safloedd, mewn Rhaglen Newid Hyfforddiant Technechol Amddiffyn ddiwygiedig. Mae hynny'n golygu y gallem ddal i weld cynllun i ehangu'r ddarpariaeth yn Sain Tathan, sef yr unig un yng Nghymru o hyd o'r naw safle Prydeinig lle mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (y WA) yn hyfforddi.

Efallai y cedwir hyfforddiant yn fewnol yn y WA, ond gellid atgyfodi cynllun PFI ar ei newydd wedd: yn wir, dydy Metrix ddim wedi gadael maes y gad, o anghenraid (er y bydd yn rhaid iddo docio tipyn ar ei gynlluniau cyn ailymddangos). Yn sicr, mae cwmni preifat arall sydd â chytundebau amdddiffyn mawr, Babcock, eisoes wedi mynegi diddordeb yn y gwaith hyfforddi, pe penderfynid rhoi'r gwaith i gwmni allanol. Bydd yr hen chwiw-eiriau blinedig eraill hynny 'gwerth', 'hyblygrwydd' ac 'effeithiolrwydd' yn chwyrlio o gwmpas, ynghyd â chydleoliad, i geisio cyfiawnhau'r camau a gymerir yn y cyfnod nesaf hwn.

### Cyhoeddi'r adroddiad - gorfodol neu ddewisol?

Yn y cyfamser mae ymgyrchwyr yn erbyn Metrix yn dal i bwyso, ac un o'u gofynion yw cyhoeddi Adroddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus i orchmynion pwrcasu gorfodol yn Sain Tathan. Mae'r Adroddiad, a gwblhawyd ym mis Mawrth eleni, yn dal heb ei gyhoeddi gan Lywodraeth y Cynulliad. Cyfiawnhawyd yr oedi yn y lle cyntaf gan wleidyddion a gweision sifil ar y sail fod yn rhaid disgwyl am ganlyniadau'r arolwg amddiffyn strategol cyn i Weinidogion Cymru allu penderfynu. Bydd y penderfyniad hwnnw'n gysylltiedig ag unrhyw gynlluniau sy'n dal mewn bodolaeth ar gyfer y Parc Busnes Awyrofod ar yr un safle yn Sain Tathan, o dan adain Busnes Rhyngwladol Cymru (rhan o asgell ddatblygu economaidd y Cynulliad). Neu efallai y bydd oedi pellach tra bod y WA hithau'n ailfeddwl. Y naill ffordd neu'r llall, gellir disgwyl cyfeiriadau pellach at y 'synergedd' honedig rhwng dau hanner datblygiad y safle, a oedd yn sail i gynnig Metrix.

Fel y gwyr y rheini a fu'n dilyn y saga, nifer fach o wleidyddion yng Nghymru sy'n fodlon ymrwymo'n gyhoeddus ar y mater hwn. Mae gennym ymrwymiad gan Kirsty Williams AC, Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, i ofyn cwestiynau yngl?n ag amseriad cyhoeddi'r Adroddiad Ymchiliad. Ond ar hyd yr adeg, bydd Chris Bryant AS, Alun Cairns AS, Jane Hutt AC a gwleidyddion etholedig eraill yn ne Cymru a oedd yn frwd o blaid achos Metrix, yn parhau i bwyso am gytundeb diwygiedig ar gyfer Sain Tathan.

### Plan B

Felly, rhaid parhau i fod yn wyliadwrus. Mae pob argoel y bydd gwleidyddion yn mynnu rhywbeth milwrol sylweddol ar y safle, i lenwi'r horwth o hanger gwag sy'n dyddio o ffars project Draig Goch y degawd blaenorol. I ddechrau, dywedodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, fod y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r coleg yn 'bradychu pobl Cymru' a dywedodd Elfyn Llwyd, arweinydd Plaid Cymru yng Nh?'r Cyffredin, fod hynny'n dangos bod 'Cymru, unwaith eto, yn y rheng flaen ar gyfer toriadau'. Ac eto, bonllefau o gymeradwyaeth a geid ar wefannau milwrol, oherwydd fu llawer ar y tu fewn ddim o blaid cynllun Metrix erioed. Rhaid gofyn pwy yw ein cynghreiriaid naturiol yn y frwydr hon.

Er bod rhywfaint o wirionedd, gellid tybio, yn yr honiad nad oedd gan y WA gynllun amgen cyn i Metrix ddiflannu o'r darlun, rhaid i ni ddal i fynnu fod beth bynnag a ddaw i Sain Tathan ar y raddfa leiaf bosibl. Rhaid i ni sicrhau na fydd dim, neu nemor ddim datblygu 'tu hwnt i'r ffens' (h.y. adeiladau newydd ar dir y tu allan i'r gwersyll presennol). Yr unig gadarnhad hyd yn hyn yw bydd y gwaith ailwampio a gynlluniwyd ar y safle yn parhau.

Rhaid pwysleisio hefyd na ddylai'r busnes awyrofod, sydd â llawer o gysylltiadau milwrol ac sydd, yn ei grynswth, yn amgylcheddol amheus, ddod i lenwi'r gwacter, yn gwbl groes i ymrwymiad y Cynulliad i ddyfodol carbon-isel i'n cenedl. Yn lle hynny, rhaid i ni fwrw ymlaen ar drywydd posibiliadau sifil eraill ar gyfer Sain Tathan, fel rhan o weledigaeth amgen a mwy cynaliadwy.

**Stephen Thomas**
**Grwp Ymgyrchu Sain Tathan**

# Pa ddifidend heddwch?

**Ym 1989, yn y misoedd yn dilyn tranc yr Undeb Sofietaidd, bu sôn am 'ddifidend heddwch' a fyddai'n deillio o ddiwedd y Rhyfel Oer. Ond ni ddigwyddodd hynny.**

Dyblodd gwariant milwrol yr UD (mewn termau real) yn ystod y ddau ddegawd nesaf, ac mae nawr yn gyfrifol am ryw 70% o wariant milwrol y byd. Ond dydy'r bygythiad milwrol i UDA yn ddim mwy nawr nag ydoedd ym 1989. Felly, pam mae hyn wedi digwydd?

Yn ei araith ymadawol ym 1961, rhybuddiodd yr Arlywydd Eisenhower yn erbyn gadael i'r 'cymhlyg milwrol-diwydiannol' ennill dylanwad di-alw-amdano, p'run ai ei fod yn dymuno hynny ai peidio. Syrthio ar glustiau byddar wnaeth ei eiriau, ysywaeth.

Os oedd y 'dylanwad 'di-alw-amdano' hwn yn destun pryder i'r Arlywydd Eisenhower 1961, erbyn 1989 roedd yn cwmpasu popeth, er gwaethaf y ffaith fod y bygythiad tybiedig i UDA wedi dod i ben. Yn ystod y ddau ddegawd hyn, mewn ymgais fwriadol i ddarbwyllo mwyfwy o bobl a chymunedau fod eu swyddi'n dibynnu ar arfau rhyfel, cafodd ffatrïoedd cynhyrchu arfau eu hadleoli ledled yr UD.

Yn union fel y gwelsom ni yng Nghymru ASau ac ACau o bob plaid wleidyddol yn dadlau o blaid dod â'r academi 'amddiffyn' fondichrybwyll i Sain Tathan, felly y mae Seneddwyr a Chyngreswyr yr UD yn pleidleisio'n ufudd ar ôl 'prynu' eu cefnogaeth i gynhyrchu arfau yn lleol.

Mewn gwirionedd, mae creu a datblygu arfau newydd wedi mynd yn ddiben ynddo'i hun - a chreu gelynion real a dychmygol yn ddyfais yn strategaeth farchnata'r diwydiant.

Mae arolwg amddiffyn mis Hydref y llywodraeth Brydeinig i bob diben yn cyfaddef nad oes rheswm milwrol dros gyllideb amddiffyn o £45 biliwn - rhestrir cawdel hynod o fygythion fel 'ymosodiadau ar seiber-ofod', 'brawychiaeth', 'prinder tanwydd', 'ansefydlogrwydd prisiau', 'damwain neu berygl naturiol enbyd', 'ansefydlogrwydd, gwrthryfel neu ryfel cartref mewn gwlad dramor', ac ati.

Ynghudd yn y rhestr yma, heb fod yn y rheng flaen hyd yn oed, mae cyfeiriad at 'ymosodiad gan wlad arall' - heb ddim ymgais i asesu 'pwy?', 'ble', neu 'pam?'

Mewn gwirionedd, does dim diben i'r gwariant milwrol yma ac eithrio ymyrryd mewn gwledydd eraill. Yn y cyfamser, mae gwariant milwrol yr UD wedi llamu ymlaen, yn ddi-hid o amcanion milwrol, ond wedi ei yrru gan reidrwydd masnachol, yn enwedig o safbwynt gwerthu arfau i wledydd y trydydd byd - ar draul, ymhlith eraill, cwmnïau Prydeinig.

Mae'r diwydiant arfau ym Mhrydain (a Ffrainc) yn wynebu anhawster newydd hefyd. Tra bod llywodraeth Obama yn dal i gredu y bydd gwariant cyhoeddus yn ysgogi'r economi, mae llywodraethau Ewrop yng ngafael gwallgofrwydd 'mesurau llymder'. Heblaw am brojectau statws - fel Trident - does ar lywodraethau Ewrop ddim awydd talu am brojectau milwrol dianghenraid i ddim pwrpas ond cynnal y diwydiant arfau.

Dyna'r esboniad ar y cytundeb brysiog rhwng Prydain a Ffrainc i rannu llongau cludo awyrennau a chyfrinachau niwclear. Nid yw'r naill neu'r llall yn fodlon gwario rhagor o arian cyhoeddus er mwyn cystadlu mewn ras arfau yn erbyn yr UD a ysgogir gan fasnach. Does gan y naill na'r llall ddim gelyn hygred i gyfiawnhau llongau cludo awyrennau, llongau tanfor niwclear, ac arfau uwch-dechnegol - ac eto, rhaid cadw'r dylanwad gwleidyddol maen nhw'n ei gredu sy'n deillio o feddu ar y fath arfau.

I'r mudiad heddwch, mae hwn yn gyfle na ddylem ei fethu. Daeth braw-atalydd niwclear 'annibynnol' Prydain i ben pan aeth y taflegrau Polaris yn ddibynnol ar dechnoleg anelu yr UD. Mae'r system Trident 'Brydeinig' yn ddibynnol ar gwmni yn yr UD (Lockheed Martin) i gynhyrchu'r taflegrau; mae'n dibynnu ar lynges yr UD i wasanaethu'r taflegrau - ac mae'r generaduron niwtron yn yr ergydion eu hunain yn gwbl ddibynnol ar UDA.

Yn awr, ymddangys fod Prydain yn mynd i fod yn ddibynnol ar gyfleusterau Ffrainc ar gyfer profion gydag ergydion niwclear hefyd. Llawer gwell cael gwared o'r cwbl.

**John Cox**
**CND Cymru**

## heddweithredu

**Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Niwclear (NIS) wedi cynhyrchu papur cefndir ynglyn â'r cydweithrediad rhwng Prydain a Frrainc ar dechnoleg taflegrau niwclear (Teutates) am yr hanner canrif nesaf.**
**Mae'r pwyntiau allweddol yn cynnwys:**
*** Bydd y cyfleusterau o dan y cynllun hwn yn weithredol o 2015.**
*** Bydd y cytundeb yn cael ei osod ger bron Senedd San Steffan.**
*** Ni chyfnewidir gwybodaeth strategol, ac ni chydweithredir ar leoli arfau niwclear, llongau tanfor na chyfnewid deunyddiau neu ergydion ar gyfer taflegrau niwclear, er mai un o amcanion y rhaglen gyfunedig yw caniatáu cydweithrediad uniongyrchol rhwng timau o'r ddwy wladwriaeth.**
*** Ni chyhoeddir costau'r project newydd am y tro am resymau yn ymwneud â sensitifrwydd masnachol, ond fe'u rhennir yn deg rhwng y ddwy wlad.**
*** Yn ystod y blynyddoedd nesaf bydd y ddwy wlad yn addasu eu rhaglenni gwladol er mwyn symud ymlaen at Teutates.**
*** Er gwaethaf y rhaglen Teutates, bydd gwaith ar y cyfleuster hydrodynameg arfaethedig 'Project Hydrus' yn SAA Aldermaston yn parhau.**
*** Ymgynghorwyd ag UDA ynglwn â'r cynnig, heb ddim gwrthwynebiad oddi wrth lywodraeth Obama na'r garfan filwrol. Trafodwyd hefyd a ddylai'r UD, y DU a Ffrainc ill tair gydweithredu ar arfau niwclear.**
*** Gellid cyhuddo'r DU a Ffrainc o fynd yn groes i ysbryd y Cytundeb Atal Ymlediad a'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr ill dau gyda'u trefniadau arfaethedig ar gyfer cydweithredu.**
**Gellir lawrlwytho'r papur cefndir o http://bit.ly/bgNFNQ neu cysyllter â'r NIS am gopi**
**t: 0118 327 7489**
**e: office@nuclearinfo.org**



**Gwneud eu gorau Glas yn Llundain**
Mae gwylnos gwrth-Trident fisol CND yn Sgwâr y Senedd yn Llundain wedi bod dan fygythiad dehongliad yr heddlu o Ddeddf yr Heddlu a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol ac ymdrechion i'w gweithredu ers rhai misoedd. Fodd bynnag, nid heb ymdrech, mae'r Heddlu Metropolitan fel pe baent wedi rhoi'r gorau i geisio ei hatal neu ei symud o'i safle arferol gyferbyn â Big Ben. Cynhelir yr wylnos ar ddydd Mawrth cynta'r mis, 5 – 7 pm.

**Doliau'n ymgyrchu dros heddwch**
Mae'r Mudiad dros Ddileu Rhyfel yn cyflwyno 'Peacenik Patty' yn eu cylchgrawn ardderchog, *Abolish War*, sef dol â dillad a phlacardiau y gellir eu torri allan. Mae Patti ar gael i'w lawrlwytho am ddim gyda dillad i'w hargraffu, eu torri allan a'u lliwio. Yn arbennig ar gyfer ymgyrchu ym misoedd y gaeaf, mae patrymau gweu 'Barbie and Ken' ar gael ar gyfer siwmperi a hetiau 'Dileu Rhyfel'. Ewch i weld yn:
www.abolishwar.org.uk/downloads/

**Addurno mewnol Albanaidd**
Ar ôl derbyn dirwy o £500 am flocedio canolfan niwclear Faslane, peintiodd y protestwyr Janet Fenton a Barbara Dowling sloganau mewn coch llachar ar furiau Llys Dumbarton a ddywedai: 'Nid yw'r llys YH yma yn cadw'r gyfraith ryngwladol' a 'Mynnwn lys heddwch'. Cyn cael ei dirwyo, dywedodd Barbara Dowling wrth y barnwr: 'Mae anufudd-dod sifil wedi dymchwel llawer o gyfreithiau nad oedd yn iawn yn gyfreithiol nac yn foesol. Byddaf yn parhau i wneud popeth a fedraf, yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon, i unioni'r drygioni enbyd hwn.'




**Penblwydd hapus i chi, 'rhen goesau!**
Mae'r papur Americanaidd, *Nuclear Resister* yn 30 mlwydd oed! Fe'i sefydlwyd gan Jack a Felice Cohen-Coppa (sy'n dal yn olygyddion heddiw) i adrodd ar ymdrechion i ddiarfogi trwynau taflegrau niwclear yn ffatri General Electric, Pennsylvania, gan y Plowshares 8 ym 1980. Oddi ar hynny, cyhoeddwyd 157 o rifynnau hynod. Mae pob rhifyn yn adrodd hanes gweithredoedd uniongyrchol gwrth-ryfel a gwrth-niwclear – yn yr UD ac y tu hwnt i'w ffiniau – ac mae hefyd yn rhestru enwau gweithredwyr sydd yn y ddalfa a'u cyfeiriadau carchar.
Annwyl Jack a Felice, rydym ni yng Nghymru yn falch o allu'ch cyfrif yn ffrindiau!
www.nukeresister.org


**Dewis heddwch**
Ym Mhrydain, fel llawer o wledydd eraill, mae cwtogi ar wariant cyhoeddus ar y gweill ac yn destun dadl ffyrnig. Cwestiwn allweddol ym Mhrydain yw cost anferthol 'diweddaru' arfogaeth niwclear Prydain, rhywbeth mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei ystyried yn gwbl ddi-ddefnydd hyd yn oed pe bai gennym filiynau o bunnau i'w sbario. Mae copïau o gerdyn post PPU gyda slogan heriol, 'Torrwn wariant ar amddiffyn o 100%' ar gael i'w lawrlwytho.
www.ppu.org.uk

**Tanio dronau o longau tanfor**
Cyhoeddwyd cytundebau ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gynwysyddion taflegrau mewn llongau tanfor ar gyfer y Llynges Frenhinol a Llynges yr UD. Dywedir y byddant yn cynnwys 12 tiwb yn unig, o'i gymharu â'r 24 presennol yn llongau tanfor yr UD ac 16 yn llongau tanfor Vanguard Prydain (sy'n cario taflegrau niwclear Trident). Mae'n debyg y byddant yn gallu cael eu haddasu i lawnsio taflegrau cruise, awyrennau di-beilot (dronau) a cherbydau tanfor di-beilot.
http://bit.ly/avV91B

**Academi Heddwch Cymru**
Mae'r ddeiseb sy'n galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi Academi Heddwch yn dal i fynd yn ei blaen. Galwyd ar arweinwyr y ddeiseb i roi gwybodaeth ychwanegol ger bron yn gynnar ym mis Rhagfyr, ac rydym yn obeithiol y ceir rhyw fath o benderfyniad yn fuan wedi hynny. Mwy o wybodaeth: John Cox (gweler cysylltiadau)

## Dyddiadur Heddwch Housmans 2011

Bod blwyddyn bydd Housmans yn cyhoeddi eu Dyddiadur Heddwch byd-enwog. Mae rhifyn 58 yn cynnwys Cyfeiriadur Heddwch Byd-eang sy'n rhestri bron 2,000 o fudiadau heddwch, yr amgylchedd a hawliau dynol cenedlaethol a rhyngwladol mewn 150 o weldydd. Eleni, bydd hefyd yn cynnwys erthygl nodwedd arbennig i ddathlu 75 mlynedd cyntaf *Peace News*.
Mae Dyddiadur Heddwch Housmans yn cynnig gwasanaeth di-elw i fudiadau ym mhedwar ban sy'n gweithio dros heddwch, cyfiawnder cymdeithasol a'r amgylchedd.
Maint poced, wythnos i'w gweld ar y tro, gyda dyddiadau nodedig a dyfyniad wythnosol. Yn cynnwys calendrau, siart gynllunio ar gyfer 2012 a lle i nodiadau.
**Pris £8.95 1-4 dyddiadur a £1 y dyddiadur am gludiant (cludiant am ddim ar archebion mwy).**
**Archebwch arlein yn www.housmans.com neu anfonwch siec gyda'ch archeb, enw a chyfeiriad at Housmans, Peace House, 5 Caledonian Road, Kings Cross, Llundain N1 9DX**
**e: shop@housmans.com**
**t: 020 7837 4473**



# Cadwch at y Cytundeb Atal Ymlediad - gweithiwch dros ddiarfogi!

**Dechreuodd y gwarchae am hanner nos ar Dachwedd y 1af gyda dyn, menyw a'i chi yn cadw gwylnos wrth un o glwydi'r dociau trwy'r nos a'r rhan fwyaf o'r dydd. Am 5 am dechreuodd ymgyrchwyr gwrth-niwclear flocedio Iard Ddociau Devonport yn Plymouth yn heddychlon ac yn ddi-drais.**

Yma, yn iard ddociau'r llynges, mae llongau tanfor niwclear Trident yn cael eu cynnal a'u cadw a'u trwsio. Ni chodwyd y gwarchae, a alwyd gan grwp Trident Ploughshares Plymouth, 'Y Tamariaid', tan 9.45 am. Erbyn diwedd y dydd, cawsai 14 o bobl eu restio am gadw gwarchae heddychlon ar y clwydi, a thrwy hynny atal y gwaith ar Trident a llongau tanfor niwclear eraill dros dro.

### Anfoesol, anghyfreithlon a pheryglus

Dywedodd John Robb, Tamariad lleol, wrth heddwch: 'Dydy Trident ddim yn unig yn ddrwg i Plymouth, mae'n ddrwg i bawb. Prin fod swyddi - sy'n lleihau mewn nifer beunydd - yn wobr gymwys am orfod llochesu rhywbeth sydd nid yn unig yn anfoesol ac yn anghyfreithlon, ond sy'n berygl real a beunyddiol i'r 250,000 sy'n byw yn y ddinas. Dydy waliau'r dociau, er gwaethaf eu maint, ddim yn atal ymbelydredd.'

Meddai Mary Kemmenoe of Downderry, 'Mae llongau tanfor Trident arfog yn fygythiad troseddol parhaus i'r byd, ac fel dinasyddion cydwybodol, teimlwn ei bod yn ddyletswydd arnom i geisio eu hatal. 'O ran llygredd ymbelydrol, mae Dyfnaint yn 'iard gefn' pawb. Mae'r gwaith beunyddiol o gynhyrchu, cludo, gweithredu, adnewyddu, defnyddio a dadgomisiynu adweithyddion llongau tanfor niwclear ac arfau niwclear yn beryg bywyd i bawb, yn awr ac yn y dyfodol.'

### Sefyll yn y bwlch

Roedd y rheini a restiwyd wedi bod yn rhwystro clwyd y Camel's Head i'r dociau yn heddychlon. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau, yn cynnwys clymu eu hunain wrth gar, a chlymu eu hunain wrth ei gilydd â thiwbiau-braich metel a superglue. Aethpwyd â nhw i orsaf heddlu Charles Cross yn Plymouth. Daeth y Dydd Gweithredu i ben gyda rhwng 30 a 50 o weithredwyr heddwch yn gwrthdystio y tu allan i orsaf yr heddlu er mwyn dangos cefnogaeth i'r rhai a oedd yn y celloedd. Roedd reilins gorsaf yr heddlu yn fôr o faneri lliwgar.

Ar ôl cael eu cadw yn y ddalfa am rai oriau, cafodd rhai eu cyhuddo o droseddau o dan Adran 14 o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus; cafodd eraill fechnïaeth ac fe gânt eu cyhuddo yn ddiweddarach.

Mae'r protestwyr di-drais yn annog y llywodraeth Brydeinig i anrhydeddu ei hymrwymiad i weithio tuag at ddiarfogi niwclear yn ddiffuant, gan ddweud y byddai'n well gwario'r biliynau a werir ar arfau dinistr torfol ar dechnolegau gwyrdd a gwasanaethau cyhoeddus angenrheidiol.

Roedd Angie Zelter, o Drefyclo, sylfaenydd Trident Ploughshares ac enillydd Gwobr Bywoliaeth Iawn 2001, yn un o'r blocedwyr. Dywedodd: 'Mae arfau niwclear yn camystumio gwead moesol ein cymdeithas ac yn tanseilio'n dynoldeb. Gyda'r byd yn wynebu argyfyngau ecolegol anferth wedi eu hachosi gan gamddefnydd pwer corfforaethol gyda chefnogaeth grym arfau, mae'n hanfodol hyrwyddo diwylliant o heddwch nid rhyfel.'

### Meddai Is-gadeirydd CND Cymru, Chair Ray Davies:

'Roedd y gwarchae'n llwyddiant mawr. Ymunodd y garfan fechan o Gymru â channoedd o weithredwyr i atal llif y cerbydau trwy'r ddwy glwyd. Treuliasom nos Sul yn cynllunio cyn ymlusgo i mewn i'n sachau cysgu am noson aflonydd o gwsg.

'Roeddem ar y bws mini am 5 a.m. a llwyddasom i osgoi'r heddlu wrth i ni gysylltu ein ceblau trwm â'n gilydd. Tynnodd un grwp sylw'r heddlu, a dyma ninnau'n taflu'n hunain ar lawr a chloi ein hunain wrth y clwydi.

'Roedd awyrgylch carnifal yno, gyda cherddoriaeth organ geg, styrmant a chanu, a chaneuon heddwch o bob rhan o Ewrop - Yr Alban, Lloegr, Cymru, yr Almaen, Ffrainc, Y Swistir.

'Wedi pump awr bron o warchae di-dor, heb i'r un cerbyd ddod trwy'r clwydi, cyrhaeddodd yr heddlu â'u hoffer torri. Fe'n rhybuddiwyd sawl gwaith i symud ond gwrthododd pawb. Cymerwyd ein henwau a'n manylion personol a thynnodd ffotograffydd yr heddlu ein lluniau. Yna cawsom ein llusgo a'n cario o'r ffordd. Dywedodd arolygydd wrthyf fi a phrotestiwr



arall y byddem yn cael ei cyhuddo o'r tramgwydd troseddol o dresmasu difrifolach.'

'Mae'r gwir fygythiad i'n diogelwch yn cynnwys dihysbyddu adnoddau, newid hinsawdd, llygredd, trachwant dynol a gormesu hawliau dynol. Dydy arfau niwclear ddim yn ein hamddiffyn yn erbyn y rhain, yn wir, maen nhw'n gwaethygu pethau.

'Mae degawd o warchaeau a gweithredoedd diarfogi Trident Ploughshares wedi helpu i adeiladu mudiad eang a chryf yn erbyn arfau niwclear yn yr Alban. Etholwyd llywodraeth yr Alban gyda pholisi o ddiarfogi niwclear. Tro Lloegr yw hi nawr.

'Cafodd y blocedwyr groeso cynnes gan Eglwys Fethodistaidd Plymouth yn ei Neuadd Ganolog. Gan fod rhai o'r gynulleidfa yn gweithio yn Devonport, roedd y penderfyniad i ganiatáu i'r blocedwyr ddefnyddio'r eglwys yn anodd ond yn un moesol gryf. Cafwyd llety gan D? Cwrdd y Cyfeillion hefyd ac Eglwys Iesu Frenin.


Mwy o ffotograffau a gwybodaeth:
**www.tridentploughshares.org**

### heddweithredu

**Os hoffech fod yn rhan o grwp gweithredu uniongyrchol o Gymru - a does dim rhaid i bob aelod fod yn barod i gael ei restio, mae angen cefnogaeth gyfreithiol, foesol ac ymarferol bob amser - da chi, cysylltwch ag CND Cymru (gweler cysylltiadau t. 14).**

**Ddim yn medru teithio? Pam na threfnwch chi ddigwyddiad cefnogi cyfochrog yn nes adre, i gyd-daro â digwyddiadau cenedlaethol neu ryngwladol?**

# Hanes amddiffyn y Preselau




**Mwynhad arbennig fu darllen *Brwydr y Preselau* gan Hefin Wyn, hanes ymdrech pobol yr ardal unigryw honno, rhwng 1946 a 1948, i achub 60,000 erw o diroedd rhag eu cipio gan y Swyddfa Ryfel.**

Gwyddom hanes yr hyn ddigwyddodd i Epynt lle diwreiddiwyd cymdeithas Gymraeg gyfan. Ni wyddom hanes y frwydr i achub calon Gogledd Sir Benfro, hwyrach oherwydd , yn wahanol i Epynt a Thryweryn, mai ni enillodd.

Ymladdodd preswylwyr y Preselau frwydr ddigyfaddawd yn erbyn holl rym y Swyddfa Ryfel. Trannoeth i'r stori ymddangos yn y *Western Mail* roedd y Cynghorydd Mathias Davies, gweinidog Capel y Gelli, Llawhaden, a Horeb, Maenclochog, ar ei draed yng Nghyngor Sir Benfro yn taranu yn erbyn y cynllun ac yn sicrhau gwrthwynebiad ei gyd-aelodau. Ffurfiwyd Pwyllgor Diogelu'r Preselau ar unwaith gyda Mathias Davies yn gadeirydd a nifer o weinidogion eraill ar flaen y gâd, arweinwyr cymdeithas a dynion â'r hyder i ymladd y frwydr ar eu tir a'u telerau eu hunain.

Adroddir hanes cynrychiolwyr y Swyddfa Ryfel yn dod i gyfarfod a'r trigolion ym Maenclochog. Wrth i un o'r swyddogion milwrol ddechrau ar ei ffregod torrodd y Parch. Joseph James ar ei draws a galw ar y Parch. Parri Roberts i arwain y cyfarfod mewn gweddi, gweithred syml, mewn iaith ddieithr iddynt, i fwrw cynrychiolwyr y Swyddfa Ryfel oddi ar eu hechel. A phan awgrymodd un swyddog milwrol mai tir sâl oedd dan sylw, ateb Joseph James oedd mai 'magu eneidiau' a wnaent ar lechweddau'r Preseli.

Ymladdwyd y frwydr ar bob ffrynt: y perygl i gronfeydd dwr Hwlffordd ac Aberdaugleddau; y cyfoeth henebion a chwedlonol; yr iaith a'r diwylliant; Dewi a'r seintiau a'r cysylltiadau â Thwddewi. Anogaeth D. J. Williams, Abergwaun, un o drïawd Penyberth, oedd gwrthwynebu drwy 'bob dull moesol ac ysbrydol'.

Cafodd Hefin Wyn gloddfa werthfawr o wybodaeth mewn papurau lleol, yn arbennig y *Narberth, Whitland and Clynderwen Weekly News*, fu'n gefnogol i ymdrechion yr amddiffynwyr. Ffynonellau eraill y gyfrol yw dogfennau swyddogol y Llywodraeth a chofnodion y Pwyllgor Amddiffyn a ddiogelwyd gan deulu Titus Lewis, ysgrifennydd y pwyllgor.

Mae'n stori i gynhyrfu'r gwaed y dylsem ymfalchïo ynddi.

**Gwyn Griffiths**

**Hefin Wyn, *Brwydr y Preselau* (2010, Clychau Clochog) £6.95**

# Trafod dronau yn Llundain

**Roedd CND Cymru, Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bro Emlyn, a Chymdeithas y Cymod yn gyfranogwyr allweddol mewn cynhadledd ddiweddar gan Gymdeithas y Cymod yn Lloegr (FoR) yn Llundain ar 'Ryfeloedd y Dronau'**

Daeth yr achlysur ag academyddion, ymgyrchwyr, sefydliadau anlywodraethol a dinasyddion pryderus ynghyd i drafod y defnydd cynyddol o awyrennau di-beilot (dronau) a robotiaid eraill fel peiriannau ysbïo a lladd o bell. Lawnsiwyd dogfen gefndir yr FoR, *Convenient Killing – Armed Drones and the Playstation Mentality*, yn ystod y gynhadledd.

Yn ôl y seiat syniadau o Washington, Sefydliad Brooking, am bob gwrthryfelwr sy'n cael ei ladd mewn cyrch dronau, bydd o leiaf 10 o sifiliaid yn marw. Gyda chymorth Qinetiq, hedfanodd cangen Brydeinig y cwmni arfau Ffrengig anferth Thales yr awyren drôn 'Watchkeeper' ar ran y Fyddin Brydeinig o Aberporth ym mis Ebrill. Addasiad yw'r Watchkeeper o'r Hermes 450 gan Elbit o Israel, y mae'r Fyddin Brydeinig eisoes yn ei ddefnyddio yn Afghanistan o dan gytundeb prydles. Mae gan y Watchkeeper radar sy'n gallu targedu unrhyw beth sy'n symud ar y ddaear yn ogystal â'i offer ysbïo electro-optegol.

Bydd dronau Watchkeeper a'u hinjans yn cael eu cydosod mewn ffatri yng Nghaerlwr, U-TacS, y mae Elbit yn berchen ar 51% ohoni, ac sydd dan reolaeth Israel. Bydd y ffatri sy'n cynhyrchu'r injans yn perthyn yn gyfan gwbl i Israel.



Cyn belled ag y gwyr *heddwch* wrth i ni fynd i'r wasg, mae'r penderfyniad terfynol i hedfan dronau uwch ben pobl Cymru mewn awyrofod sifil yn dal heb gael ei gyhoeddi. Yn Aberporth, lle mae miliynau o bunnau o arian cyhoeddus eisoes wedi eu gwario ar baratoi 'Canolfan Ragoriaeth ar gyfer profi a datblygu UAVau', roedd gwleidyddion (yn eiddgar i fod yn gysylltiedig â phroject 'mawr') a hyrwyddwyr Parc Aberporth yn dweud yn 2002 y byddai 230 o swyddi ar y safle a 'lle i 1000'. Ar hyn o bryd y ffigwr swyddogol yw bod 39 o bobl yn gweithio yno. Mae llawer o'r cytiau mawr ar y safle yn dal i sefyll yn wâg – gwarth mewn ardal o'r Canolbarth sydd â diweithdra uchel a chyn lleied o gyfleoedd gwaith tymor-hir gwirioneddol gynaliadwy ar gyfer pobl ifanc leol.

Dydyn ni ddim am i'n gwlad fod yn ganolfan i gynhyrchu arfau ac offer ysbïo nac i addysgu mewn bwlio, gormes a thrais.

**heddweithredu:**

**Mae'r ddogfen gefndir ar gael o:**
**www.for.org.uk/act/campaign/**
**Mwy o wybodaeth gan www.bepj.org.uk neu www.cymdeithasycymod.org.uk**

## Tren araf i Gorleben

Cafodd tren CASTOR (Casgenni Stori a Chludo Deunydd Ymbelydrol) sy'n cario gwastraff niwclear o Ffrainc i'r Almaen ei orfodi drwodd i ben ei daith gan filoedd o heddweision yn wyneb protestiadau eang. Bu'n rhaid i'r heddlu symud degau o filoedd o bobl oddi ar y cledrau er mwyn i'r tren allu cyrraedd ei orsaf drosglwyddo. Cymerodd y tren 91 awr i gyrraedd y domen wastraff yn Gorleben.

Bu cymaint â 50,000 o bobl wrthi'n ceisio rhwystro'r tren.

http://tinyurl.com/34kle3c a http://tinyurl.com/32coygj

(lluniau gwerth eu gweld)




## Coffáu pawb a ddioddefodd mewn rhyfel



Ymgasglodd Grwp Heddwch Sir Benfro a chefnogwyr wrth Groes Landsger Howard Bowcott yn Arberth ym mis Tachwedd i goffáu *holl* ddioddefwyr rhyfel. Dan arweiniad y Parchedig Peter Lewis a Rachel Matthews, gosodwyd torch o babïau coch a gwyn wrth y groes.

Gwahoddwyd y rheini oedd yn bresennol i ymuno a gweithio dros heddwch. Meddai Peter Lewis: 'Nid gwaith un person neu un gymuned yn unig yw dod â heddwch; nid gwaith rhywun arall; ein gwaith ni gyda'n gilydd ydyw. Rhaid i ni weld sut y gallwn achub y byd rhag rhyfel a rhag popeth sy'n arwain at wrthdaro ar lefel bersonol, cymunedol a chenedlaethol. Dim ond trwy weithredu'n bersonol y gallwn wneud hynny.'

## Galw Caerfyrddin!

**Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o grwp heddwch newydd yn ardal Caerfyrddin, yna fe hoffai Sheena Williams glywed gennych!**

**e: welshveins@aol.com**
**m: 077914 59254**



## RHAN O LYTHYR AT MR CAMERON



### *Annwyl David Cameron,*

*Yn gyntaf, pob bendith a dymuniad da yn eich swydd gyfrifol fel Prif Weinidog. Ac yn awr, dyma nifer o geisiadau caredig ar fy rhan fy hun ac ar ran llu mawr o bersonau sy'n rhannu yr un dyheadau.*

*1.Yr angen i Brydain hyrwyddo diwylliant heddwch, nid diwylliant rhyfel. Yr ydych eisoes wedi datgan yn groyw 'mai un o'm gweithredoedd cyntaf fel Prif Weinidog fyddai creu Cabinet Rhyfel'. A wnewch chi ei ail-enwi yn 'Gabinet Heddwch'?*

*2.Prydain i gael gwared yn llwyr ar 'Trident' a phob arf niwclear. Sylwer: nid cwtogi, ond gwaredu. Dyma'r unig ffordd i ennyn ymddiriedaeth gwledydd eraill. Holwch drigolion Hiroshima heddiw, ac fe ddeuwch i sylweddoli'n fuan fod arfau niwclear, fel rhyfel ei hun, yn symbol o farbareiddiwch oes a fu. Cam-resymu difrifol yw credu bod arfau niwclear yn fodd i atal ymosodiad gan 'elyn', a rhagrith yw i Brydain gondemnio gwledydd eraill am ddatblygu arfau niwclear, tra ar yr un pryd yn cadw rhai ein hunain.*

*3.Dod â'r milwyr yn ôl o Afghanistan ar fyrder, nid dweud y byddant yn aros yno, a dyfynnu eich geiriau chwi, 'until the job is done', neu ymhen 'pum mlynedd'. Yn hytrach na rhuthro i ryfel mewn gwledydd pellennig, megis Afghanistan ac Irac, mynd i ryfel gartref - rhyfel yn erbyn pob anghyfiawnder a thlodi.*

*4. Rhoi i Gymru, fel cenedl, megis i'r Alban, ei hunanlywodraeth, yn cynnwys yr hawl i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn, yn hytrach na'i bod yn gorfod dilyn yn wasaidd, fel ci bach, wrth sodlau Llywodraeth Prydain.*

*Yr ydych yn barod iawn i gondemnio gwledydd eraill am rwystro eu rhyddid i genhedloedd llai, beth am edrych gartref a gweithredu yr un egwyddor gyda'r Alban a Chymru a gollodd eu rhyddid ganrifoedd yn ôl?*

*Carwn hefyd i chwi roi'r gorau i'r arfer gyfeiliornus o gyfeirio at Brydain fel 'cenedl'. Nid cenedl yw Prydain ond cyfuniad o genhedloedd.*

*5.Rhoi terfyn ar ddefnyddio awyrennau di-beilot (drones), fel y rhai sy'n hedfan o Aber-porth i Epynt yng Nghymru. Drwy weithredu'r ceisiadau uchod byddai Prydain, yn yr argyfwng ariannol presennol, yn arbed biliynau lawer o bunnoedd, arian y gellir ei ddefnyddio ym meysydd iechyd, addysg a lles y gymdeithas. Y mae pris un bom yn ddigon i dalu am…*

*Bydd cyfle hefyd i Brydain fod yn wir 'fawr', nid oherwydd ei grym milwrol, nid oherwydd ei chyfoeth materol, ond oherwydd y gall roi arweiniad i'r byd drwy hyrwyddo diwylliant heddwch a chyfiawnder, trugaredd a chariad, rhyddid a gwarineb.*

***Oddi wrth Robin Gwyndaf***

### heddweithredu:

**Dyma fersiwn Gymraeg o lythyr a anfonwyd at David Cameron, gyda chopïau at Nick Clegg; William Hague, yr Ysgrifennydd Tramor; Liam Fox, y Gweinidog Amddiffyn; Carwyn Jones ac Ieuan Wyn Jones, y Cynulliad Cenedlaethol.**
**Os ydych yn cytuno â chynnwys y llythyr, beth am anfon gair at David Cameron a'r personau a enwir uchod. Croeso ichwi hefyd ddyfynnu unrhyw ran o'r llythyr.**

# Wylfa - gwir farn y cyhoedd

**Comisiynwyd Arolwg Ynni Môn gan yr ymgynghorwyr rheolaeth Mana-Cymru Cyf, yn sgîl cais gan ymgyrch PAWB (Pobol Atal Wylfa-B), ac fe'i gwnaed gan Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Bangor yn ystod yr haf. Holwyd barn sampl cynrychioladol o 500 o bobl o Ynys Môn ac ardaloedd cyfagos yng Ngwynedd naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.**

Mae'r arolwg yn awgrymu fod pobl leol yn bryderus ynglwn â gwastraff niwclear ac effeithiau niweidiol ar iechyd pobl o ganlyniad i ddod â gorsaf bwer niwclear Wylfa-B i Ynys Môn.

Mae'r arolwg hefyd yn dangos fod yn well gan y cyhoedd ffynonellau ynni adnewyddadwy, ond gwelir diffyg hollbwysig o ran gwybodaaeth am yr amrywiaeth o ffynonellau amgen na niwclear sy'n bodoli, ac effaith tymor-hir gorsaf bwer niwclear newydd ar yr ynys, wedi'r cyfnod adeiladu.

Dywedodd bron i dri-chwarter o'r bobl a holwyd y byddai'n well ganddyn nhw weld swyddi mewn ynni amgen neu adnewyddadwy pe bai mwy o swyddi ynni yn cael eu creu ym Môn.

Tra bod yr arolwg yn dangos lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r cynlluniau i adeiladu Wylfa-B, gyda 97% o ymatebwyr yn gwybod am y cynlluniau, dangosai hefyd ddiffyg gwybodaeth cyffredinol ynglwn â dewisiadau ynni amgen, a'r 500 o swyddi a fydd ar gael yn sgîl dadgomisiynu Wylfa-A.


Cododd bron i ddau-draean o'r ymatebwyr bryderon pan holwyd eu barn ynglwn â storio gwastraff ymbelydrol 'poeth' (lefel-uchel) o Wylfa-B ar yr wyneb ar y safle am 160 o flynyddoedd.

Fel y gellid disgwyl, gwaith i bobl ar Ynys Môn a mwy o arian yn yr economi leol roedd pobl yn eu crybwyll fel prif fanteision Wylfa-B. Fodd bynnag, llygru'r amgylchedd, effeithiau niweidiol at iechyd pobl, ac effeithiau niweidiol ar iechyd plant oedd uchaf ar restr yr anfanteision.

Pan holwyd y cwestiwn: 'Pe bai mwy o swyddi ynni'n cael eu creu ar Ynys Mônm ble'r hoffech chi weld y rhain yn cael eu creu?', cytunai 74% yr hoffent eu gweld mewn ynni amgen neu adnewyddiadwy, a doedd ynni niwclear ddim hyd yn oed yn y tri uchaf, gan sgorio dim ond 35%.

Meddai Dr Carl Iwan Clowes, aelod o PAWB ac Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus, 'Mae'r arolwg hwn yn dangos fod y cyhoedd yn dal yn amheus ynglwn â dod â gorsaf bwer niwclear arall i Ynys Môn, a hynny er gwaethaf ymgyrch ddrud Horizon Nuclear i hyrwyddo'r syniad.

'Rydym yn poeni fod ofnau real iawn pobl yn cael eu hanwybyddu. Mae creu swyddi yn ddadl mor gref dros adeiladu Wylfa B, ond beth am y gost? Gwaddol o wastraff, targed i frawychwyr, cyfle i ddamweiniau ddigwydd – ac a fydd y swyddi'n mynd i bobl leol, p'run bynnag? Rydym yn galw am drafodaeth fwy gwybodus, yn enwedig o ran ffyrdd amgen o sicrhau cyflenwad ynni cynaliadwy ar gyfer y cenedlaethau i ddod.'



**heddweithredu**

**Mae copïau o ganlyniadau'r arolwg ar gael ar wefan PAWB: www.stop-wylfa.org Arwyddwch y ddeiseb arlein ac ymunwch â thudalen 'Atal Wylfa – Dim Niwclear yng Nghymru' ar Facebook.**

# Deng mlynedd ar hugain o Ddyheu am Ddi-niwclear

**Dathlodd mudiad yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear (ALIDN) ei 30^fed penblwydd ym mis Tachwedd. Fe'i sefydlwyd mewn cyfnod o gynllunio gorsafoedd pwer niwclear PWR newydd, ymchwilio i safleoedd claddu gwastraff niwclear, pan oedd llongau tanfor y llynges yn cludo taflegrau niwclear Polaris, awyrennau'r awyrlu yn hedfan â bomiau niwclear WE77, a bwriad i leoli taflegrau niwclear Cruise Americanaidd yn Lloegr, a fyddai'n rhygnu ar hyd ffyrdd cyhoeddus yn ystod ymarferion ac mewn unrhyw 'argyfwng rhyngwladol'.**

**Heddiw, efallai fod y bygythiadau canfyddedig wedi newid, ond nid yw'n cymunedau yn fwy diogel, ac mae gwyliadwraeth unedig a mesurau ataliol gan lywodraeth leol yn hanfodol.**

Mewn achlysuron ym Manceinion, roedd y gwesteion yn cynnwys dau a oroesodd fomio atomig yr UD ar Nagasaki – Cadeirydd Bwrdeistref Nagasaki, Takashi Yoshihara, a Yoshiro Yamawaki, 'hibakusha' (un a oroesodd y bomiau atomig). Daeth digwyddiadau coffa'r dydd i ben gyda lawnsio Llwybr Heddwch a Chyfiawnder Canol Dinas Manceinion.

Ers 1980, mae'r ALIDN wedi mynd i'r afael, yn ymarferol ac o fewn eu pwerau, â'r problemau a achosir gan beryglon niwclear sifil a milwrol. Fel llais llywodraeth leol ar faterion niwclear, mae'r ALIDN yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu polisïau gwrth-niwclear ac i ymuno â'r rhwydwaith – yn enwedig gan fod llywodraeth San Steffan yn bwriadu gwneud pwer niwclear yn rhan o'r gymysgedd a fydd yn cyflenwi ynni Prydain am y 40 mlynedd nesaf, ac yn gwario biliynau o bunnau'r flwyddyn ar adnewyddu arfau niwclear.

**heddweithredu**

**Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl roedd pob cyngor sir a llawer o gynghorau dosbarth a chymuned yn aelodau o'r ALIDN. Sgrifennwch at arweinydd a/neu gadeirydd eich awdurdod lleol a gofyn os yw'r cyngor yn perthyn i'r ALIDN. Os ydyw, cymeradwych hynny; os na, dywedwch pam y credwch y dylai fod. Mae'r tâl ymaelodi yn gymharol fach; mae hwn yn fater o egwyddor. I ddysgu mwy: www.nuclearpolicy.info e: office@nuclearpolicy.info t: 0161 234 3244**

# Pethau'n Poethi gyda Huhne

**Cyhoeddodd datganiad Huhne ar bwer niwclear ym mis Hydref fod cynllun ynni llanw Môr Hafren wedi cael ei ddileu oherwydd y gost, ond methodd ystyried dewisiadau mwy ymarferol ac addas ar gyfer cynhyrchu ynni o'r llanw.**

Roedd yr adroddiad hefyd yn cytuno y gellid cwestiynu'r 'Cyfleusterau Storio Interim' ar safleoedd adweithyddion newydd fel Hinkley Point (ar arfordir Gwlad yr Haf, dim ond 30 milltir o Gaerdydd) bellach fel materion cynllunio. Fel gyda safleoedd adweithyddion niwclear newydd eraill yng ngwledydd Prydain, bydd y tanwydd 'llosgi lefel-uchel' yn adweithyddion arfaethedig Electricité de France (EdF) yn Hinkley ddwywaith mor boeth a dwywaith mor ymbelydrol â chynnyrch Adweithyddion Dwr tan Bwysedd (PWR) safonol fel Sizewell B. Bydd yn rhaid cadw'r tanwydd niwclear hesb eithriadol o ymbelydrol dan ddwr mewn storfa interim am 160 o flynyddoedd o leiaf.

### Does nunlle i guddio

Bydd cynllunio a diogelwch parthed unrhyw adweithyddion niwclear newydd yn Hinkley yn bwyntiau anodd i'r awdurdodau eu dadlau oherwydd bydd yn rhaid i'r tanwydd niwclear hesb – ymbelydrol dros ben – ddal i gael ei gludo i safle storio canolog. Byddai parhau â'r trefniant dadleuol presennol o fynd â'r tanwydd hesb peryglus mewn lori trwy Bridgwater ac ymlaen trwy gymunedau eraill hyd yn oed yn fwy peryglus, gan y byddai'r gwastraff yn fwy ymbelydrol o lawer na'r tanwydd hesb presennol o Hinkley B.

Mae'r llywodraeth Brydeinig yn dal i gredu y bydd 'Cyfleuster Daearegol Dwfn' yn dod i fod rhyw ddydd. Mae'r broses ar hyn o bryd yn rhan o gynllun 'gwirfoddoli' ond dim ond un ardal – Cumbria – sydd wedi ei chynnig ei hun, a gallai dynnu allan o'r holl beth ar unrhyw adeg. Mae adroddiad daearegol diweddar fel pe bai'n dangos fod llawer o Cumbria yn anaddas ar gyfer cloddfa ddofn. Felly, mae'n bosibl mai'r gwir amdani yw y bydd y gwastraff yn Hinkley, a safleoedd eraill fel Wylfa, yn cael ei adael yno yn barhaol.

### Pwer Niwclear – Dim Ffiars!

Dywedodd Crispin Aubrey, llefarydd ymgyrch Stop Hinkley: 'Dydy'r holl broblemau diogelwch ddim wedi diflannu'n sydyn: iechyd, damweiniau, brawychiaeth, ynghyd â pheryglon stori gwastraff ymbelydrol ar y safle am hyd at 100 mlynedd wedi i'r gorsafoedd pwer gau.

'Aeth mwy nag 20 mlynedd heisio ers agor yr orsaf bwer niwclear olaf ym Mhrydain. Pam? Oherwydd fod y costau a'r peryglon yn ormod i'r un cwmni eu hystyried heb nawdd cyhoeddus. Mae Stop Hinkley yn credu mai pwer niwclear oedd ateb aflwyddiannus y gorffennol i'r broblem ynni, ac mai dulliau adnewyddol, glân, diogel yw'r dyfodol.'

Mae pwer niwclear yn denu'r rheini sydd â diddordeb mewn 'creu cyfoeth' ac sydd am weld 'twf economaidd' pan fo'r fath dwf yn gwbl anghynaliadwy o safbwynt amgylcheddol.




ffoto: paul glendell / www.glendell.co.uk

## Diolch Jim

Mae Jim Duffy, gwrthwynebydd llafar i bwer niwclear, wedi rhoi'r gorau i'w swydd fel cyd-drefnydd y grwp ymgyrchu Stop Hinkley, oherwydd gwaeledd. Am ddegawd a mwy, bu Jim Duffy yn ddraenen yn ystlys perchenogion gorsafoedd Hinkley Point ac Oldbury – sef y cwmni ynni Ffrengig EdF, ar hyn o bryd.

Pan glywsant am salwch Jim, dywedodd llefarydd ar ran EdF fod y cwmni'n parchu'r ymgyrchydd am y ffordd roedd wedi glynu at ei egwyddorion.

Dywedodd 'Mae EdF yn parchu barn hirsefydlog Jim Duffy mewn perthynas â phwer niwclear. Er nad yw hon, wrth reswm, yn farn rydym yn ei rhannu, mae wedi glynu wrth ei egwyddorion erioed, a chredwn ei bod hi'n bwysig cynnal dadl agored a chref ar y pwnc. Dymunwn yn dda i Jim am y dyfodol.'

Mewn teyrnged i waith Jim, dywedodd Jean McSorley, ymgynghorydd i ymgyrch niwclear Greenpeace: 'Mae Jim Duffy wedi gwneud cyfraniad hynod i'r mudiad amgylcheddol, nid yn unig yn y maes niwclear ond hefyd yn y maes ehangach'.

## heddweithredu


**Deiseb yn erbyn Hinkley C**
**Mae Stop Hinkley wedi casglu bron 5,000 o lofnodion ar ddeiseb i'w chyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd yn San Steffan, pan fydd y cwmni niwclear EdF yn rhoi ei gais cynllunio gerbron. Da chi, gwnewch yn siwr eich bod wedi arwyddo, rhowch y gair o gwmpas, lawrlwythwch ddeisebau er mwyn casglu mwy o enwau, ac anogwch eich ffrindiau a'ch cymdogion i arwyddo arlein. Y dyddiad cau bellach yw diwedd Ionawr 2011.**

**Deiseb arlein y gellir ei hargraffu hefyd yn:**
**www.stophinkley.org**
**Arwyddwch, da chi.**
**Ymunwch â thudalen 'Cynghrair Wrth-niwclear De Cymru' ar Facebook.**

# Hugh Richards

**Roedd gan Hugh Richards, gweithredydd gwrth-niwclear angerddol sydd wedi marw o ganser mêr yr esgyrn, ffordd addfwyn a chynnil o fynd ati a guddiai benderfyniad ffyrnig a hiwmor sych bendigedig.**

Hyfforddodd Hugh, a aned yng Nghaerdydd, fel pensaer (gan ennill gradd ddosbarth cyntaf o Brifysgol Caerdydd lle cyfarfu â'i wraig, Mag) a chynlluniwr trefol (ym Mhrifysgol Sheffield). Enynnodd ei waith fel cynlluniwr gyda chyngor Lerpwl yn y 1970au cynnar ei ddiddordeb yn yr amgylchedd. Wedi rhai blynyddoedd yn Llundain, symudodd Mag ac yntau yn ôl i Gymru ym 1976 i gychwyn teulu a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy.



Roedd yr ymchwiliad cyhoeddus niwclear mawr cyntaf ym Mhrydain yn Windscale (Sellafield) yn digwydd ar y pryd, a chyn hir roedd Hugh wedi ymdaflu i wrthwynebu pwer niwclear. Gyda gweithredwyr eraill o'r un anian, sefydlodd Grwp Ynni'r Canolbarth ac yn ddiweddarach, Cynghrair Wrth-niwclear Cymru (CWNC), a chwarae rhan hefyd yn sefydlu mudiad yr Awdurdodau Lleol Di-niwclear ym 1980.

Erbyn 1988 roedd yn rhwystredig am na allai dreulio mwy o amser ar yr achos niwclear, felly cytunodd Mag ac yntau y byddai'n 'dad y cartref', gan dreulio'i amser hamdden ar ymgyrchu. Ar yr un pryd, sefydlodd bractis preifat fel ymgynghorydd cynllunio a dylunio. Yn wir, fe oedd dylunydd y cartref lle mae ei feibion Billy a Tom, sydd ag anawsterau dysgu difrifol, yn byw fel rhan o Fenter Gymunedol Ashfield ym Mhowys. Byddai Hugh a'i frawd iau, Tim, yn arfer cellwair fod ganddo deulu gwirioneddol 'wrth-niwclear'.

Roedd Hugh yn ymgyrchydd diflino dros achosion y credai eu bod yn iawn, nid dim ond gyda'r amgylchedd, ond hefyd dros hawliau pobl ag anawsterau dysgu. Safodd yn etholaeth Brycheiniog a Maesyfed dros y Blaid Werdd yn etholiad cyffredinol 1992.

Efallau mai ei fuddugoliaeth fwyaf oedd darbwyllo Gweinidog Amgylchedd y Cynulliad, Jane Davidson, ym mis Awst llynedd, i gefnogi galwad CWNC am ymchwiliad cyhoeddus i'r cynigion ar gyfer adeiladu gorsafoedd niwclear newydd yng Nghymru. Galwyd Hugh fel tyst arbenigol mewn nifer o ymchwiliadau cyhoeddus niwclear, a dyna lle cwrddais ag ef am y tro cyntaf, ddau ddegawd yn ôl.

Ei gyfraniad pwysicaf oedd gwaith ar reoli tanwydd hesb, a'r hyn a elwir yn danwydd niwclear 'llosgi lefel-uchel' mewn cynlluniau ar gyfer adweithyddion newydd. Aeth ati'n drwyadl i brofi nad yw cynlluniau'r diwydiant niwclear ar gyfer rheoli gwastraff gorsafoedd newydd yn gynaliadwy. Mae Hugh yn gadael Mag, Billy, a Tom.

**David Lowry**
Ymgynghorydd Annibynnol ar Bolisi ac Ymchwil Amgylcheddol
Cyn-gyfarwyddwr Canolfan Wybodaeth Ewrop am Ymlediad (EPIC)
Aelod gweithgar o CND Seneddol

**Roedd Hugh wedi ffarwelio â ni yn dawel pan sylweddolodd mai dim ond ychydig o wythnosau a oedd ganddo'n weddill. Mae'r deyrnged a anfonwyd ato gan ei gydweithwyr yn dweud y cwbl:**

*Rydym yn eithriadol o drist i glywed dy newyddion. Mae'r cyfuniad o wroldeb, pragmatiaeth ac ymostyngiad rwyt wedi eu harddangos yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn drawiadol ac yn ysbrydoliaeth i ni.*

*Yn ystod yr amser hwnnw, llwyddaist i barhau i wneud cyfraniad aruthrol i'r mudiad gwrth-niwclear. Rydym yn gwerthfawrogi, yn enwedig, dy haelioni wrth rannu dy ddadansoddiad yn eang, sydd wedi bod yn amhrisiadwy. Mae dy waith ar ôl-troed storfeydd, rheolaeth ar danwydd hesb a thanwydd llosgi lefel-uchel yn seiliedig ar ymchwil fanwl a dadansoddi meddylgar. Mae wedi dangos fod cynlluniau tymor-hir y diwydiant niwclear ar gyfer rheoli gwastraff o unrhyw orsafoedd newydd a adeiledir yn llythyrennol anghynaliadwy. Mae hwn yn waith arloesol a bydd yn dal i chwarae rhan bwysig o ran tanseilio sylfaen wyddonol a moesegol unrhyw ymgais i ehangu'r diwydiant niwclear.*

*Rydym am i ti wybod gymaint rydym ni sy'n ymgyrchu yn erbyn datblygiad pellach y diwydiant niwclear, a'i gynlluniau ar gyfer rheoli gwastraff niwclear, yn gwerthfawrogi dy waith. Ein bwriad yw sicrhau y bydd ei ddylanwad ar y ddadl yn parhau yn ddigyfnewid, hyd yn oed os na elli di barhau â'th waith. Mae'n debyg iawn y bydd hanner-oes faith i'th etifeddiaeth.*

*Mae llawer ohonom wedi dod i'th adnabod a'th werthfawrogi nid yn unig fel ymgyrchydd pybyr a diflino ond fel person – am dy hiwmor, dy ddewrder ac, uwch law popeth, dy ddynoldeb.*

*Rydym yn bwriadu coffáu dy waith â darlith yn dy enw. Credwn fod hon yn ffordd briodol o roi parhad i'th ymdrechion. Ond mewn ffyrdd eraill hefyd, bwriadwn fynd â'r maen i'r wal yn y frwydr hon. Gwyddom mai dyna dy ddymuniad pennaf.*

*Rydym hefyd yn cydnabod y gefnogaeth aruthrol a roddodd Mag i ti trwy'r cyfnod anodd yma, a gyfrannodd gymaint at dy allu i barhau â'th waith. Hugh, diolch am bopeth a wnaethost i wneud y byd yn lle gwell. Bu'n bleser ac yn fraint wirioneddol cael dy adnabod.*

***Gyda diolch, oddi wrth***
**Andy Blowers, Pete Wilkinson, David Lowry, Rachel Western, Phil Davies, Jill Sutcliffe, Val Mainwood a Pete Roche (Nuclear Waste Advisory Associates) Crispin Aubrey, Jill Gough, CND Cymru, Kate Hudson, CND Prydeinig, Dawn Rothwell, CND Prydeinig, Chris Gifford , Paul Flynn AS, Max Wallis, June Birch. Inside Outsider Publications, Phil Steele, PAWB, Linda Rogers, PAWB, Sioned Huws, PAWB, Carl Iwan Clowes, PAWB, Gerry Wolff, Energy Fair, Deborah Ardizzone, Jean Mcsorely, Greenpeace, Ben Ayliffe Greenpeace, Kenny MacDougall, Hunterston Site Stakeholders Group, Marianne Birkby, Radiation Free Lakeland, Bill Howard BNFL Decommissioning Dialogue, Helen Wallace Genewatch.**

# Ar y Ddaear, Tangnefedd?

**Nid dim ond hanes y cerdyn Dolig 'diymhongar' a'i negeseuon yw arddangosfa cyn-AS Blaenau Gwent, Llew Smith, *Protest, Politics and the Christmas Card* (mae'n sôn amdani isod), ond cofnod o lawer o faterion heddwch, gwleidyddol a diwydiannol o bwys ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae cardiau'n portreadu geiriau a gweithredoedd y rheini a wrthododd dewi, yn wyneb anghyfiawnder. Gyda'u negeseuon bachog, mae'r rhain yn glanio ar y mat ar adeg o'r flwyddyn pan gaiff y gair 'heddwch' yn aml ei ddefnyddio'n ddiofal ar 'gynnyrch' y tymor. Oherwydd, fel y gwyddom, cysyniad gwag yw heddwch heb gyfiawnder a hawliau dynol.**

Tra'n cydnabod fod neges draddodiadol tangnefedd ar y ddaear ac ewyllys da yn adlewyrchu ein dyheadau, gwyddom hefyd ei bod wedi mynd yn fwyfwy diystyr, i'r graddau ei bod wedi cael ei mabwysiadu gan y rhyfelgwn mwyaf tanbaid.

Cynhyrchir llawer o gardiau Nadolig sy'n ymdrin â digwyddiadau a datblygiadau sy'n tarfu ar heddwch ar y ddaear, fel rhyfeloedd neilltuol, y fasnach arfau a datblygiad arfau niwclear. Mae pob un yn teilyngu sylw, fel y mae'r rhan a chwaraeir gan ymgyrchwyr heddwch yn yr ymgyrchoedd hyn.

### Heddwch *gyda* chyfiawnder

Dechreuodd ymgyrchwyr heddwch fel Bertrand Russell ddefnyddio'r cerdyn Nadolig i gyhoeddi neges yn erbyn rhyfel ac awgrymu llwybr amgen tuag at heddwch. I Russell 'ysbryd brawdgarwch' oedd 'yr unig ffordd y gall cenhedloedd, sy'n friw ac yn gwaedu o'r clwyfau a achoswyd gan wallgorwydd gwyddonol, ymgyrraedd at fywyd lle mae twf yn bosibl a lle nad alltudir llawenydd ar alwad ynfyd dyletswyddau afreal a ffug.'*

### Yn erbyn ffasgaeth

Ym 1936, aeth arweinydd y ffasgiaid, y Cadfridog Franco, i ryfel yn erbyn ei bobl ei hun a llywodraeth Weriniaethol ddemocrataidd etholedig Sbaen. Aeth gwrth-ffasgwyr o bedwar ban i ymladd ar ochr y Gweriniaethwyr. Adlewyrchir eu haberth a'u gobeithion yn un o'r cardiau Nadolig: *'He gives but he has all to gain, He watches not for Spain alone. Behind him stand the homes of Spain, Behind him stands his own'*. Ysywaeth, trechwyd y Gweriniaethwyr, a agorodd y ffordd i Hitler ac erchylltra'r Ail Ryfel Byd. Roedd heddychwyr a oedd yn gwrthwynebu Hitler, ond a wrthwynebai ryfel o hyd fel dull o ddatrys anghydfod, yn erfyn am ddiwedd ar yr Ail Ryfel Byd trwy gyfrwng cerdyn Nadolig: *'may the warring countries light up again in 1940 and St Christopher resume his good work for international fellowship'*.

Ceid cardiau Nadolig gwrth-ryfel yn dangos rhyfeloedd Korea, Fietnam, y Malfinas a rhyfeloedd mwy diweddar yn y Dwyrain Canol yn y blynyddoedd canlynol ac fe'u dangosir yn yr arddangosfa. *'Stop the War'* oedd y gri mewn perthynas â'r rhyfel diweddaraf, tra bod llawer o rai eraill yn canolbwyntio ar ryfel parhaus Israel yn erbyn y Palestiniaid. Mae un cerdyn yn defnyddio hiwmor, gan ddangos y doethion o'r dwyrain yn syllu i'r ffurfafen gan ofyn 'ai seren Bethlehem yw honna, neu un arall o daflegrau Israel?'.

### Y darlun mwy

Mae rhai cardiau Nadolig yn mynd i'r afael â'r fasnach arfau. Mae un yn dangos Thatcher yng ngwisg Siôn Corn, yn rhybuddio plentyn 'fe gei di daflegryn am Nadolig fel pawb arall'. Mae cerdyn arall yn gwatwar rhan Prydain yn y fasnach arfau, gan ddangos Reagan a Gorbachev yn dweud *'bye bye'* wrth arfau rhyfel tra bod Thatcher, sy'n rhwbio'i dwylo yn afieithus, yn dweud *'Buy, Buy'*.

### Cyson a diniwed

Heddiw, mae'r rhan fwyaf o gardiau Nadolig 'heddwch' yn canolbwyntio ar arfau niwclear. Mae un cerdyn yn dwyn y geiriau: 'dydy rhai gwerthoedd ddim yn newid – ac ni ddylent' gyda symbol y prif fudiad gwrth-arfau niwclear – CND. Mae un arall yn ein hatgoffa mai 'neges yr Wyl' yw 'y gall dyn ddewis' – p'run ai i ddilyn ffordd arfau niwclear ai peidio.

Mae'r gweithredwyr dros heddwch sy'n dal i ymgyrchu ar lawer o'r materion hyn yn ganolog. Er enghraifft, mae un cerdyn yn dangos gweithredwyr gwrth-niwclear yn amgylchynu gwersyll Comin Greenham. Mae un arall yn ymdrin â gweithredwyr Trident Ploughshares a ddringodd ar fwrdd Cwch Ymchwil Trident, 'Maytime', gan wacáu ei labordy a lluchio cyfrifiaduron ac ati i ddyfnderoedd Loch Goil. Cawsant eu herlyn, ond fe'u cafwyd yn ddieuog o bob cyhuddiad.



Mae cerdyn arall yn galw sylw at sefyllfa un o'r ymgyrchwyr gwrth-niwclear mwyaf erioed – Mordechai Vanunu, a dreuliodd 18 mlynedd, mewn cell ar ei ben ei hun gan mwyaf, yn y carchar yn Israel am ddweud y gwir ynglwn â gallu niwclear y wlad, tra'r oedd pawb o'i gwmpas yn dweud celwydd.

Trwy gydol yr ymgyrchoedd hyn, ymddengys nifer o symbolau dro ar ôl tro, yn cynnwys colomen Picasso, a dynnwyd ganddo ar gyfer Cyngres sefydlu Cyngor Heddwch y Byd ym 1950. Y llall yw symbol CND, sy'n adnabyddus ym mhedwar ban y byd. Mae CND wedi cynnal yr ymgyrch wrth-niwclear, ac mae'n parhau i haeddu ein cefnogaeth.

Prin fod fy nghasgliad o gardiau Nadolig gwleidyddol yn gyflawn, ac os oes gan unrhyw un ohonoch chi, y darllenwyr, wybodaeth neu gardiau, da chi, cysylltwch â fi.

**Llew Smith**

* Russell, Bertrand (1973) "A Christmas Message," *Russell: Journal of Bertrand Russell Studies*: Cyf. 93: Rhif 3, Erthygl 10.

**heddweithredu**

**Os oes gennych chi unrhyw gardiau yr hoffech eu diogelu fel rhan o gasgliad Llew, da chi, cysylltwch ag ef. t: 01495 245 487. The Mount, Uplands, Trecelyn NP11 3RH**

**Arddangosfa**

Protest, Politics and the Christmas Card
*People's History Museum, Manceinion M3 3ER*
4 Rhagfyr 2010 – 6 Ionawr 2011
Darlith gan Llew Smith (cyn-AS Blaenau Gwent) a thrafodaeth ar bwnc yn arddangosfa: prynhawn Sadwrn 4 Rhagfyr 2010 2pm

**1 Rhagfyr**
**POBMAN Dydd Carcharorion dros Heddwch** Anfonwch gerdyn neu lythyr at y rheini a garcharwyd am weithredu yn erbyn rhyfel ac arfau niwclear. Os methwch y dyddiad, cofiwch - a dweud y gwir, mae pob dydd yn Ddydd Carcharorion dros Heddwch! Cyfeiriadau: www.wri-irg.org

**4 Rhagfyr**
**BYD-EANG Gwrthdystiadau Rhyngwladol yn erbyn Newid Hinsawdd** i gyd-daro â Thrafodaethau'r CU ar newid hinsawdd (COP16/MOP6) yn Cancun, Mecsico
www.globalclimatecampaign.org

**4 Rhagfyr**
**LLUNDAIN**
**Gorymdaith Hinsawdd**
12 hanner dydd - ymgynnull yn Speakers Corner, Hyde Park. 2.00 pm - Rali Argyfwng Hinsawdd yn Sgwâr y Senedd
t: 0207 833 9311
e: info@campaigncc.org
www.campaigncc.org
Cludiant o Henffordd
t:01432 850 647

**4 Rhagfyr**
**CAERNARFON Rali *yn erbyn y Toriadau*** Y Maes (Neuadd y Farchnad os yn glawio) 11am, trefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Siaradwyr o PCS, UNISON, BECTU, UMCB, Undebau Prifysgol a Choleg, NUS, Plaid Cymru, Y Blaid Lafur, Cymdeithas yr Iaith, Mantell Gwynedd, Ymgyrch Ward Alaw, Cymunedau'n Gyntaf, Pobol Peblig a'r Gogledd yn erbyn y Toriadau. Byddwch yno! Efallai y bydd cludiant ar gael
t: 01970 624 501
e:
swyddfa@cymdeithas.org
www.cymdeithas.org

**4 Rhagfyr - 6 Ionawr**
**MANCEINION *Protest, Politics and the Christmas Card*** arddangosfa, People's History Museum, Manceinion. Trefnwyd gan Llew Smith a'r diweddar Pam Smith, i'w hagor gan Bruce Kent. Gweler t.13
e: info@phm.org.uk
t: 0161 838 9190
www.phm.org.uk

**6 Rhagfyr**
**CAERDYDD *Darnau o Heddwch*** Cyngerdd codi arian gyda Chôr Cochion Caerdydd a cherddoriaeth ryngwladol arall yn y Deml Heddwch, Parc Cathays, ar gyfer CCU a mudiadau Cymreig sy'n hyrwyddo heddwch a chyfiawnder.
t: 029 2022 8549
e: suecoles@wcia.org.uk

**8 Rhagfyr**
**CARDIFF Reynaldo Maquero o Mapuche International Link** yn trafod erledigaeth a gormes yr Indiaid Mapuche a'r waddol i Chile ar ôl cyfnod Pinochet. 6pm Y Deml Heddwch, Parc Cathays
t: 029 2022 8549
e:suecoles@wcia.org.uk

**11 Rhagfyr**
**ABERYSTWYTH** cyfarfod i drafod dyfodol Cynefin y Werin (y fforwm ar gyfer grwpiau heddwch/gwyrdd/hawliau dynol ledled Cymru) Morlan. Cysyllter â Ben Gregory
t: 01286 882 359
e: benica@gn.apc.org

**10 Rhagfyr**
**BYD-EANG Dydd Hawliau Dynol** Dathlu dyddiad mabwysiadu'r Datganiad Hollgyffredinol ar Hawliau Dynol gan Gynulliad y CU ym 1948.
www.un.org/events/ref43.htm

**11 Rhagfyr**
**LLUNDAIN *Dydd o Weithredu dros Shaker Aamer*** galw am ryddhau Shaker Aamer, preswylydd ym Mhrydain, o Fae Guantánamo a'i ddychwelyd i Brydain. Gorymdaith a gwrthdystiad, theatr stryd, cyfarfod cyhoeddus a dangos ffilmiau.
e: ssac@contact.co.uk
m: 07756 493 877
www.reprieve.org.uk/shakeraamer

**11 Rhagfyr**
**LLUNDAIN *Liberation: Beyond Resistance - Building a People's Assemblies Movement.*** Sut y gellir trawsffurfio anfodlonwrydd poblogaidd yn fudiad gwleidyddol ymryddhaol? 1-5pm Malet Street WC1E 7HX
www.peoplesassemblies.org

**13 Rhagfyr**
**CAERFYRDDIN *Twf Militariaeth - Y Drychineb Amgylcheddol*** Sgwrs gan Dr Charlotte Davies, Festri'r Tabernacl 7.30pm Cymdeithas y Cymod (cell Caerfyrddin) croeso i bawb.
m: 07855 868 077

**29 Rhagfyr POB MAN Dydd y Diniweidiaid**

**2011**
**BLWYDDYN NEWYDD DDA!**

**1 Ionawr**
**BYD-EANG Dydd Gweddi dros Heddwch Byd-eang**
www.paxchristi.org.uk/events

**20 Ionawr**
**SHEFFIELD**
***Cyflwyniad i Addysg Datrys Gwrthdaro***
Gweithdy un-dydd i archwilio sgiliau allweddol cyfathrebu, empathi, cydweithrediad, datrys problemau, cyfryngu ac ati - yn addas ar gyfer unrhyw rai a hoffai ddatblygu eu gallu i ymdrin â gwrthdaro 9:15am- 4:00pm £80.
t: 0114 241 2745
e:admin@cresst.org.uk

**30 Gorffennaf - 6 Awst**
**WRECSAM Eisteddfod Cenedlathol**
Fyddwch chi'n gallu helpu a'r Pabell Heddwch (CND Cymru)? Os 'ie'...
e:coney@gn.apc.uk

## Jeanne Crabb

**Wrth i *heddwch* fynd i'r wasg, clywsom y newyddion trist am farwolaeth Jeanne Crabb, ymgyrchydd mawr, athrawes, mam a chymrawd, yn 90 oed. Ein cydymdeimlad, o ddyfnder calon, gyda'i gur â'i chyd-ymgyrchydd, George.**

**Mae Jill Evans yn talu teyrnged i Jeanne:**

*'Rwy'n cofio Jeanne a George ers fy nyddiau cynnar gyda CND. Ar ol i mi ddod yn gadeirydd o CND Cymru, mi fyddai Jeanne yn fy atgoffa yn aml am ba mor hir y buon ni'n ymgyrchu gyda'n gilydd ac roedd ganddi hyd yn oed lun ohonai'n ifanc iawn ar orymdaith CND! Ond nid gydag anobaith roedd hi'n hel atgofion ond yn llawn optimistiaeth. Roedd hi bob amser yno gyda ni - byth yn gwthio ei hun ymlaen ond bob amser yn cefnogi ac yn rhoi cryfder i eraill. Roedd derbyn cefnogaeth Jeanne yn golygu llawer i mi - roeddwn i'n edmygu ei egwyddor a'i ymrwymiad yn fawr. Byddwn ni gyd yn gweld ei eisiau, mae'r golled yn fawr ar ei hol.'*

**Mae cyfraniadau i CND Cymru yn cael eu derbyn yn lle blodau: cysyllter â George Crabb (gweler ar y chwith)**

## Mae Arnon Ni Eich Hangen

**(a'ch ffrindiau a'ch perthnasau...)**



Do, fe ddaeth yr adeg yma o'r flwyddyn eto - Nadolig, Samhain, Diwali, Saturnalia, Chanukah, Dydd Calan, Dydd y Diniweidiaid, Eid ... ac mae'n bryd diolch i bawb am y gefnogaeth, yr angerdd a'r gweithredu a roddasoch i ni ac i'ch gilydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae mawr angen cymorth ariannol yn ogystal â moesol arnom yn y flwyddyn sydd o'n blaenau. Mae pob ceiniog a anfonir atom yn cael ei gwario ar ymgyrchu. A allwch chi helpu gyda hyn? Pam na wnewch chi ddau beth ar yr un pryd - os nad ydych chi'n aelod yna, da chi, ymunwch. Neu rhowch anrheg i ffrind neu ddau sydd efallai wedi anghofio adnewyddu eu haelodaeth - gan helpu CND Cymru ar yr un pryd.

Mae ffurflen ymaelodi yn amgaeëdig. Neu gweler www.cndcymru.org am ffurflenni aelodaeth a gorchmynion banc i'w hargraffu a'u dychwelyd drwy'r post.

**Ie, eich angerdd, eich gweithredu, eich cefnogaeth ... a'ch aelodaeth, mae CND Cymru eisiau'r cwbwl lot!**